Bioamrywiaeth Cymru

PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

Biodiversity Wales

COFNODION WEDI'U CADARNHAU O GYFARFOD CYNTAF PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU, A GYNHALIWYD AR YSTÂD HYFFORDDI'R FYDDIN, CASTELLMARTIN, SIR BENFRO, 4 MAWRTH 2003

Yn bresennol:

June Milligan (Cadeirydd Grŵp Bioamrywiaeth Cymru)	Is-Adran Cefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru
Trish Fretten	Is-Adran Cefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru
Steve Lucas	Is-Adran Cefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru
Richard Evans	Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru, Aberystwyth
Patrick Cowdy	Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru, Aberystwyth
Joanna Robertson	Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru/CCGC
Julia Korn	Hwylusydd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Nigel Ajax-Lewis	Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru
Tony Prater	Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru
David Keast (Cadeirydd LIAG)	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
David Bullock	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Dr Mike Wilson	Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Dr David Parker	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Tim Blackstock	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Jane Hodges	Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Teg Jones	Asiantaeth yr Amgylchedd
Clive Thomas	MoD Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Yn bresennol ar gyfer y Drafodaeth Grŵp, trwy wahoddiad:

David Worrall	Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ardal y Gorllewin
Matt Sutton	Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ardal y Gorllewin
Bob Haycock	Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ardal y Gorllewin
Wendy Payne	Planed
Bethan Cox	Partneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro
Andrew Tuddenham	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Prosiect Rhostir Sir Benfro
Derek Moore	Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, De a Gorllewin Cymru
Jerry Langford	Coed Cadw

Ymddiheuriadau:

Ruth Jenkins	Comisiwn Coedwigaeth Cymru
David Archer	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Lindsay Roberts	Is-Adran Gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru
Philip Coates	Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru
Dr Quentin Kay	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Brian Nelson	Dŵr Cymru
Nick J Somerfield	Undeb Amaethwyr Cymru
Emyr Hughes	NFU Cymru

Roedd tri aelod heb ateb i gais i gadarnhau eu presenoldeb.

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy groesawu aelodau a gwesteion a chyflwyno Trish Fretten, Pennaeth newydd Cadwraeth Natur yn yr Is-Adran Cefn Gwlad. Dilynodd y cyfarfod hwn y drefn sydd bellach wedi'i harfer gan y Bartneriaeth – gyda grwpiau trafod llai o faint a sesiwn lawn er mwyn nodi camau gweithredu i'w rhoi ar waith.

2. **Prosiectau Adfer Cynefinoedd ar Raddfa Fawr yng Nghymru: Cyrraedd Targedau ein Cynllun Gweithredu Cynefinoedd**

Roedd y Cadeirydd yn falch o'r cyfle i ddelio â'r mater hwn, sydd wedi cael ei ystyried yn arwynebol gan y Bartneriaeth o'r blaen. Esboniodd bod y drafodaeth hon yn amserol o safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru: roedd y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth newydd orffen ei adolygiad o weithredu bioamrywiaeth lleol; ac roedd proses dynodi safleoedd unigol Ewrop bron iawn wedi'i chwblhau. Nawr roedd cyfle i edrych ar fathau ac ar raddfeydd eraill o ymyriad bioamrywiaeth.

Gwahoddwyd David Parker a Tim Blackstock o CCGC i gyflwyno'r pwnc: pwysleisiodd David gyfyngiadau rhaglenni safleoedd dynodedig o ran cyflawni targedau cadwraeth bioamrywiaeth a'r problemau hyfywedd i gynefinoedd a rhywogaethau o ganlyniad i ddarnio a diraddio. Nododd Tim dargedau Cynllun Gweithredu Cynefinoedd ar gyfer adfer ac ehangu cynefinoedd a'r ymrwymiad tymor hir sy'n ofynnol gan bawb er mwyn eu cyflawni.

Rhannodd yr aelodau a'r gwesteion yn dri grŵp trafod, wedi'u cynorthwyo gan hwyluswyr i ystyried:

i. Prosiectau presennol/y gwersi sydd wedi'u dysgu
ii. Cynlluniau/mecanweithiau arfaethedig
iii. Manteision cymunedol prosiectau adfer cynefinoedd

Rhestrir casgliadau ac argymhellion y Grwpiau yn Atodiad 1.
GWEITHREDU: June Milligan i Gadeirio Grŵp Tasg/Gorffen yn cynnwys Dave Bullock, Derek Moore, Tony Prater a David Parker i adnabod a chytuno ar gamau gweithredu i'w rhoi ar waith gan Grŵp Bioamrywiaeth Cymru.

3. **Blaen-Rhaglen a Chyllideb Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

Cymeradwyodd yr aelodau y prosiectau a'r dyraniadau cyllideb, gan nodi bod lle ar gyfer rhagor o ymrwymiad. Cafwyd cefnogaeth unfrydol i barhau â swydd Hwylusydd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol am dair blynedd arall, ar ôl Mawrth 2004. Gofynnodd y Cadeirydd i CCGC weithredu i sicrhau'r swydd hon.
GWEITHREDU: David Parker i gadarnhau bod camau wedi'u cymryd i sicrhau swydd Hwylusydd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

Mae darpariaeth yn y gyllideb i gyfrannu at gostau aelodau'r Bartneriaeth sy'n dymuno mynychu cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth y DU yn yr Alban.
GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiweddaru'r Rhaglen a'r Gyllideb er mwyn adlewyrchu penderfyniadau a'u dosbarthu gyda phapurau cyfarfod Gorffennaf Grŵp Bioamrywiaeth Cymru. Byddai dyrannu'r £9k sydd ar hyn o bryd heb ei glustnodi yn eitem ar agenda'r cyfarfod hwnnw.

4. ADRODDIADAU

i. Grŵp Ymgynghori ar Faterion Lleol

Atgynhyrchir yr adroddiad yn Atodiad 2. Tynnodd David Keast sylw at nifer o faterion heriol. Mae cyrff cenedlaethol â nifer gyfyngedig o staff yn cael trafferth i gyflawni camau gweithredu sy'n cael eu nodi mewn cynlluniau lleol ond mae llawer yn datblygu eu hatebion eu hunain. Mae Cynlluniau Lleol yn gynnyrch ac yn gyfrifoldeb partneriaeth, ag Awdurdodau Unedol yn chwarae rôl gatalytig hanfodol sy'n cael ei chydnabod gan bwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth y Cynulliad; mae un Grŵp Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn Ne Cymru yn ymchwilio i annibyniaeth ariannol. Bydd dadl ar y materion hyn yn Seminar Blynyddol Ymarferwyr LIAG (Gorffennaf 17/18 yn Abertawe). Mae digwyddiad yn cael ei drefnu â'r nod o ennill rhagor o gefnogaeth i'r broses Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ymhlith Prif Swyddogion Awdurdodau Unedol a sefydliadau cenedlaethol.

GWEITHREDU: Julia i ddod ag argymhellion i gyfarfod Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mis Gorffennaf gan gynnwys cysylltiadau â gwobrau bioamrywiaeth

Dosbarthodd Julia gopïau o'r 'nodyn Ymgynghorol am Strategaeth Gymunedol' interim, sydd wedi'i gynllunio'n ddeniadol gan Gaynor Ainscough, ac sy'n anelu at gynorthwyo'r rheiny sy'n ymwneud â phroses Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i chwarae rôl effeithiol yn y broses Strategaeth Gymunedol.

ii. Diweddariad ar faterion y DU:

Adroddodd Steve Lucas fod cyfarfod cyntaf Partneriaeth y DU wedi'i drefnu ar gyfer 21/22 Mai 2003 yn Battleby ger Perth yn yr Alban; bydd DEFRA yn anfon gwahoddiadau i'r rheiny sy'n aelodau o grwpiau'r gwledydd.

GWEITHREDU: Dylai aelodau sy'n dymuno cael cyfraniad at gostau, gysylltu â'r Ysgrifenyddiaeth am arweiniad unwaith y byddant yn gwybod beth fydd eu costau mynychu.

Mae cyfarfodydd dau Grŵp Cefnogaeth Partneriaeth y DU ar fin digwydd. Bydd y Grŵp Ymchwil, wedi'i gynnull a'i gadeirio gan DEFRA yn cyfarfod yn Llundain ar 6 Mawrth; bydd Tim Blackstock yn bresennol ar ran CCGC a gofynnwyd iddo gynrychioli Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae'r Cydbwyllgor Gwarchod Natur yn cynnull Grŵp Gwybodaeth a Gweithredu.

GWEITHREDU: Steve Lucas i gysylltu ag Uned Bolisi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ynglŷn â dyddiadau a gwahoddiad i gynrychiolydd o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

Amlinellodd Joanna Robertson y cynnydd o ran y cylch adrodd ar Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth 2002. Mae hwn yn gylch adrodd eithaf bach, â dadansoddiad cyfyngedig. Treialwyd system adrodd yn seiliedig ar y we, ac roedd yn cynnwys Cynlluniau Gweithredu Bioamrywaieth Lleol am y tro cyntaf. Bydd yr holl ddata a gasglwyd ar gael i ymholwyr. Bydd yr adroddiad ar gael yng nghyfarfod Partneriaeth y DU ym Mai a bydd felly'n atgyfnerthu'r negeseuon a gododd o'r MBR. Bydd penodau allweddol yn trafod Prif Bartneriaid a pherthnasau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, agweddau ar Ddatblygu Cynaliadwy, materion sy'n effeithio ar gynnydd mewn cynlluniau a chyfyngiadau ar weithredu.

Bydd gwybodaeth fiolegol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaeth sy'n cael blaenoriaeth yn dangos statws, tueddiadau a chynnydd o ran targedau a bydd modd ei chymharu â data a gasglwyd yn 1999. Bydd yn cael ei chyflwyno ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd y môr, y tir a dŵr croyw. Bwriedir cynnal y cylch adrodd llawn nesaf yn 2005.
GWEITHREDU: Joanna i barhau i gynrychioli'r Bartneriaeth mewn cyfarfodydd adrodd ac i ofyn am ddadansoddiad pellach ynghylch a ydyw bioamrywiaeth wedi'i adlewyrchu mewn cwricwla ysgolion.

iii. Materion y Cynulliad

Adroddodd Trish Fretten ar gyflwyniad y Cydbwyllgor Gwarchod Natur a'r ymateb ffafriol a gafodd ym Mhwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth y Cynulliad ar 26 Chwefror.

Yn y sesiwn lawn, cyflwynodd y Gweinidog adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar ei adolygiad o weithredu bioamrywiaeth lleol a bu dadl amdano; cafwyd cefnogaeth eang i'r argymhellion; cyflwynwyd copïau o'r adroddiad a'r cofnod a gellir eu gweld ar:
www.wales.gov.uk/servlet/ChamberSession?area_code=380313AC00046B17000

Roedd cyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch A74 Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn cael ei olygu'n derfynol.
GWEITHREDU: CCGC i adrodd ar y cynnydd gan gynhyrchu cynlluniau gweithredu ar gyfer y 12 rhywogaeth ychwanegol yng nghyfarfod Gorffennaf Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

Mae'r drafft terfynol o 'Cymru Byw', sef dogfen ymgynghori ar gryfhau'r fframwaith ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth hefyd ar fin cael ei baratoi a bwriedir ei ryddhau ar ddechrau'r haf.

Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Ystâd Cefnffordd wedi'i gyhoeddi. Cymeradwywyd y fenter hon gan y Bartneriaeth; gellir gweld y ddogfen ymgynghori ar
www.wales.gov.uk/subitransport/content/consultation/bio-action-plan-e.pdf

iv. Ymwybyddiaeth: Gwefan

Adroddodd Steve Lucas y bydd gwefan statig yn cael ei chreu ar gyfer y Bartneriaeth ar safle ukbap.org.uk. Bydd dwy elfen; gwefan statig ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth a, rywbryd yn ddiweddarach, bydd y Cydbwyllgor Gwarchod Natur yn datblygu mecanwaith er mwyn galluogi pobl i gael gwybodaeth o gyfresi data perthnasol y Cydbwyllgor Gwarchod Natur sy'n deillio o gylchoedd adrodd. Ar ôl cam datblygu bydd y 'prototeip' yn cael ei symud/yn mynd 'yn fyw' o dan enw parth ar wahân. Mae dogfen Arweiniad Cynefinoedd CCGC ac Arolwg Rhywogaethau'r Sector Gwirfoddol ar fin cael eu cwblhau; mae'r ddau'n cael eu croesawu ac mae'r Bartneriaeth yn awyddus i sicrhau eu bod ar gael trwy'r We.

Ymwybyddiaeth: Swydd cefnogi

Cadarnhaodd Joanna bod CCGC wedi cymeradwyo recriwtio ar 3 Mawrth,. Byddai'r disgrifiad swydd yn cael ei ddosbarthu i Aelodau a byddai Brian Nelson yn cael ei wahodd i gynorthwyo gyda'r gwaith dewis (gweler Atodiad 3).

GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu disgrifiad swydd ar gyfer y swydd Ymwybyddiaeth.

Ymwybyddiaeth: Natur Cymru
Dywedodd David Parker, Cadeirydd y bwrdd prosiectau fod y cylchgrawn, sydd erbyn hyn wedi cyrraedd ei chweched rhifyn, wedi'i ymsefydlu'n llais dros yr amgylchedd yng Nghymru a'i fod yn stori lwyddiant ynddo'i hun. Talodd deyrnged i'r Golygydd a'r Golygydd Cynorthwyol a phartneriaid sy'n cefnogi. Bwriedir cynyddu nifer y rhifynnau i 4 y flwyddyn a chyflwyno cynnig tanysgrifio newydd gyda'r nod o gynyddu nifer y tanysgrifwyr o 1500 i 2500, a fydd yn golygu na fydd yn rhaid dibynnu cymaint ar gefnogaeth y bartneriaeth. Bwriedir hyrwyddo'r cylchgrawn mewn sioeau a digwyddiadau yn ystod haf 2003.

v. Canolfannau Cofnodion Lleol
Tynnodd y Cadeirydd sylw at y cyllid a roddwyd gan y Cynulliad trwy CCGC eleni i ariannu datblygu a sefydlu Canolfannau Cofnodion Lleol ar draws Cymru, a diolchodd i David Parker, Ruth Jenkins, Nigel Ajax-Lewis a David Keast am eu hymdrechion.
GWEITHREDU: CCGC i fonitro cynnydd ac adrodd yn ôl i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

5. Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu Grŵp Bioamrywiaeth Cymru 19 Tachwedd 2002
Cadarnhawyd y cofnodion.
Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i'w dosbarthu fel *cofnodion wedi'u cadarnhau*

Gwahoddwyd Patrick Cowdy i adrodd ar sut yr oedd y camau gweithredu a nodwyd yn y gweithdai Cysylltu Amaethyddiaeth a Bioamrywiaeth yn cael eu dwyn yn eu blaenau (Eitem 2 yn y Cofnodion, argymhellion *a* i *m*). Roedd argymhellion *a* i *d* yn gynwysedig wedi arwain at gysylltiad â LANTRA ac ELWa. Mae LANTRA'n barod i dderbyn awgrymiadau ac mae'n datblygu pecyn cefnogaeth ar-lein ar gyfer ymgynghorwyr. Mae ELWa'n cynnal adolygiad mawr ac mae'n ymddangos bod ffermydd arddangos yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo negeseuon am fioamrywiaeth.

Mae'n amlwg bod gofyn am lawer mwy o ymwybyddiaeth ynghylch goblygiadau cyngor busnes a datblygu i fioamrywiaeth a gellir gwneud llawer mwy i wella'r modd y cyflawnir hyn trwy Gyswllt Ffermio. Disgwylir cadarnhad ynghylch y cyllid fydd ar gael ar gyfer cydran amgylcheddol Cyswllt Ffermio. Adroddodd CCGC eu bod eisoes yn delio â symleiddio gorchmynion rheoli tir.
GWEITHREDU: Is-Adrannau Cefn Gwlad ac Amaethyddiaeth a Materion Gwledig i barhau i ddarganfod ffyrdd o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Patrick i weithio â LANTRA ar hyfforddiant amgylcheddol ar gyfer ymgynghorwyr busnes. Patrick i weithio â Brian Pawson o CCGC ar drosglwyddo gwybodaeth i Gyswllt Ffermio.

6. Trefniadau ar gyfer Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 02 a 03
Bydd y cyfarfod Partneriaeth nesaf ar 8 Gorffennaf naill ai yn y Canolbarth neu yn y Gogledd. Y thema fydd Busnes a Bioamrywiaeth ac roedd Brian Nelson eisoes wedi cynnig help llaw i adnabod lleoliad a gwahoddedigion priodol.
GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ymgynghori â Brian Nelson ynglŷn â lleoliad a gwahoddedigion ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cadarnhawyd mai'r dyddiad ar gyfer Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 03 fydd 11 Tachwedd mewn lleoliad yn y Canolbarth.

Adroddodd Joanna am 'Siop datrys' Busnes a Bioamrywiaeth a lwyfannwyd yng Nghynhadledd Amgylchedd Cymru yng Nghaerdydd ar 27 Chwefror. Daeth llawer o negeseuon buddiol i'r amlwg. Yn gynt yr wythnos honno roedd Julia a Joanna wedi cyfarfod ag Alan Tilloston o Rwydwaith Arena. Bydd ef a Brian Nelson yn cael cais i gynorthwyo â'r gweithdai ym Mhartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 02.

7. Unrhyw fater arall

7.1 Cyhoeddodd Dave Bullock y bydd ymgynghorydd cadwraeth natur newydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Helen Buckingham, yn cymryd ei le ar y Bartneriaeth.

7.2 Ar ôl y cyfarfod, disgrifiodd Bob Haycock o CCGC a Clive Thomas o'r Weinyddiaeth Amddiffyn fioamrywiaeth Ystâd Hyfforddi'r Fyddin yng Nghastellmartin a manteision y Cynllun Gweithredu Rheoli Integredig. Yn anffodus, ychydig o aelodau oedd yn gallu derbyn y gwahoddiad i weld y safle. Diolchwyd i bawb a fu'n ymwneud â threfniadau'r dydd.